



Diben a chefnidir

Mae'r canllawiau hyn wedi eu datblygu gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) mewn ymgynghoriad ag ymarferwyr, rheolwyr ac arweinwyr sector i helpu gweithwyr cymdeithasol a'u cyflogwyr i reoli'r risg o ymweliadau â'r cartref yn ystod COVID-19.

Mae gweithwyr cymdeithasol wedi dweud wrthym eu bod angen canllawiau cyson tra'n cynnal ymweliadau ag oedolion, plant a theuluoedd yn ystod y cyfnod hwn. Dyma ganllawiau cyffredinol i holl weithwyr cymdeithasol ar draws y DU.

Bydd BASW yn ysgrifennu at lechyd Cyhoeddus Lloegr ar gyfer canllaw cenedlaethol penodol i weithwyr gofal cymdeithasol fel bod cydraddoldeb rhwng y proffesiwn a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill. Byddwn hefyd yn olrhain ein llythyr at y PW am y mater brys hwn.

Nod y canllawiau yw:

- Helpu gweithwyr cymdeithasol i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach, a lleihau'r risgiau o haint yn ystod ymweliadau â'r cartref
- Galluogi gweithwyr cymdeithasol i gyflawni eu dyletswyddau yn ystod yr argyfwng heb berygl gormodol
- Lleihau'r risg o haint arall wrth i weithwyr cymdeithasol fynd i mewn i gartrefi

Gall egwyddorion y canllaw hwn fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio a chynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau eraill (e.e. ysbytai neu gartrefi gofal) yn ystod Covid-19, ond cafodd ei ysgrifennu ar gyfer ymweliadau â chartrefi. Bydd BASW yn cyhoeddi canllawiau eraill ar gyfer lleoliadau ac arbenigeddau gwaith cymdeithasol eraill.

Lleihau'r defnydd o ymweliadau, defnyddio technoleg

Mae'r canllawiau yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd gweithwyr cymdeithasol a'u sefydliadau yn lleihau ymweliadau wyneb yn wyneb â'r cartref yn ystod y pandemig, yn seiliedig ar asesiadau risg.

Dylai sefydliadau ofyn i weithwyr cymdeithasol ymweld â'r cartref ar gyfer y canlynol yn unig:

- Pan fydd asesiad risg yn ystyried ei bod yn gwbl angenrheidiol i atal niwed sylweddol a/neu
- I gyflawni dyletswydd statudol na ellir ei chyflawni mewn unrhyw ffordd arall a/neu

- Pan fydd perygl o haint i staff a phobl yr ymwelwyd â nhw wedi lleihau yn unol â'r canllaw hwn a phrotocolau cenedlaethol

Dylai sefydliadau ac ymarferwyr gynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol a chyswllt dros y ffôn ble bynnag bo'n bosibl Canllawiau ar allu digidol, cyfleoedd ac ethnigrwydd gan BASW a SCIE ar gael yma [BASW Website Digital Capabilities for Social Workers](#)

Arferion da gweithio gartref

Gan fod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio llawer mwy o gartref yn ystod y pandemig Covid-19, mae'n hanfodol bod rheolwyr, goruchwylwyr a gweithwyr cymdeithasol yn datblygu a chynnal cysylltiadau tîm a thrafodaeth drwy gyfathrebu dros y ffôn ac yn ddigidol fel bo'r angen. Mae hyn yn angenrheidiol i gefnogi lles gweithwyr cymdeithasol a phenderfyniadau ymarfer, i reoli risg ac atal ynysiad.

Sylwer: Mae'r canllawiau hyn ar lein a byddant yn cael eu hadolygu a'u diweddarau. Defnyddiwch y fersiwn ar-lein i sicrhau fod gennych y fersiwn mwyaf diweddar. Bydd yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y mis yn ystod yr argyfwng Covid-19.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu fframwaith asesu risg proffesiynol i baratoi ar gyfer ymweliadau wyneb yn wyneb â'r cartref yn ystod Covid-19. Mae BASW, eich corff proffesiynol yn argymhell y dull hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, canllawiau diweddaraf gan iechyd y cyhoedd, profiad ac arbenigedd ymarfer.

Defnyddiwch y canllawiau ar gyfer:

Arwain a llywio eich ymarfer

- Gofyn am gefnogaeth ac arweiniad priodol gan eich cyflogwr
- Codi pryderon proffesiynol a chwestiynau am ymarfer neu ganllawiau lleol gyda'ch cyflogwr, cynrychiolydd iechyd a diogelwch, undeb llafur a BASW
- Nid yw'r canllawiau hyn yn:
 - Disodli canllawiau cenedlaethol (swyddogol) iechyd y cyhoedd
 - Disodli canllawiau rheoleiddio neu'r cyflogwr
 - Cynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal personol – dylent ddefnyddio canllawiau cyflogwr, rheoleiddiwr a gov.uk
 - Cynnwys gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio mewn ysbytai, cartrefi gofal, ysgolion neu leoliadau eraill gan gynnwys swyddfeydd. Bydd BASW yn cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer lleoliadau gwaith eraill; gwiriwch y wefan a gohebiaeth BASW ar gyfer diweddariadau.
 - Cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio trafndiaeth gyhoeddus – dilynwch ganllawiau iechyd y cyhoedd ynghlŷn â defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Cynghori ar sut i reoli dyletswyddau statudol – mae hyn i gyrff statudol gynghori yn seiliedig ar y gyfraith, fodd bynnag mae BASW yn datblygu canllawiau moesegol.

Canllawiau ymarfer ymweliadau cartref

Nid yw'r canllawiau yn gyflawn. Gellir ei ddefnyddio fel sail i gyngor penodol a gwneud penderfyniadau gan eich sefydliad.

Cynllunio ymweliad

- Nodwch a yw diben yr ymweliad yn hanfodol ar yr adeg hon
- Gwiriwch gyda'ch sefydliad lleol pa drefniadau a chanllawiau ar flaenoriaethu a gyhoeddwyd yn lleol.
- Gwiriwch a oes yna ofyniad cyfreithiol/statudol.
- Gwiriwch a yw'r unigolyn (neu eu teulu / gofalwr ble bo'n briodol) angen neu eisiau'r ymweliad ac eglurwch y peryglon posibl i'r unigolyn drwy dderbyn ymweliad fel bo'n briodol.
- Eglurwch beth yw'r deilliannau a chamau tebygol o ganlyniad a chymerwch y rhain i ystyriaeth yn eich asesiad risg ac wrth gynllunio ymweliad.

Ar gyfer ymweliadau amlbroffesiynol

Cysylltu gydag asiantaethau eraill (posibl) sy'n ymwneud â'r ymweliad (e.e. heddlu neu gydweithwyr iechyd).

Os bydd yr ymweliad yn un aml-broffesiynol, defnyddiwch y canllaw hwn a'r egwyddorion o'i fewn i gynllunio:

- agwedd 'tîm' ar gyfer yr ymweliad
- pwy fydd yn gwneud beth a phwy fydd ym mha agosrwydd at yr unigolyn/teulu
- pa Gyfarpar Diogelu Personol y bydd pob un yn ei ddefnyddio (gweler adran ar Gyfarpar Diogelu Personol isod) i sicrhau fod pob aelod o'r grŵp amlbroffesiynol wedi'i ddiogelu yn llwyr a gwybod beth mae'r naill a'r llall yn ei wneud
- sicrhau bod moeseg gwaith cymdeithasol a gwerthoedd parch, cyfathrebu priodol a pherthynas gyda'r cartref yn cael eu cynnal yn ystod ymweliadau amlbroffesiynol
- Nodi sut y gellir cyflawni diben yr ymweliad tra'n cynnal pellter corfforol a argymhellir sef 2 fedr.
- Nodi a ellir cyflawni diben yr ymweliad heb fynd i mewn i'r eiddo.
- Nodi a ellir cyflawni diben yr ymweliad drwy ymarferydd arall sy'n gorfod gwneud ymweliad hanfodol.
- Ystyried yr unigolyn mwyaf priodol i gynnal unrhyw ymweliad sy'n hanfodol.
- Lleihau agosrwydd corfforol drwy ofyn i agweddau o'r ymweliad gael eu cynnal o bell.
- Gwirio trefniadau a chanllawiau eich sefydliad lleol

Cysylltu â'r person yr ydych yn ymweld â nhw (neu aelod o'u teulu/gofalwr os yw hynny'n briodol) i gael gwybodaeth am yr amgylchedd, lle sydd ar gael a'u statws iechyd i'ch helpu i reoli'r risg.

- Bydd hyn fel arfer drwy alwad ffôn, ond gall cyfathrebu digidol arall fod yn briodol yn ôl protocol lleol a'r sefyllfa.
- Pan na fyddwch yn gallu cysylltu/siarad gyda'r cartref cyn yr ymweliad
- Bydd yna adegau **pan fyddwch angen ymweld a chysylltu ymlaen llaw i gasglu gwybodaeth gan yr unigolyn neu deulu ddim yn bosibl** (am amrywiaeth o resymau).
- Os mai dyna'r achos, dylech chi (a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cymryd rhan) drin y sefyllfa fel sefyllfa risg uchel Covid-19 (i ymarferwyr ac/neu bobl yr ymwelwyd â nhw) a chymryd rhagofalon atal-haint amddiffynnol fel bo'r angen yn unol â chyngor Iechyd y Cyhoedd.

Pan fyddwch yn cysylltu â'r unigolyn/teulu cyn yr ymweliad:

- Eglurwch am y coronafeirws a pham bod angen rhagofalon arbennig ar hyn o bryd: i'w hamddiffyn nhw, i amddiffyn gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld ac amddiffyn y gymuned. Darparwch wybodaeth mewn ffurf y gallant ei deall a gwiriwch eu dealltwriaeth
 - Atebwch eu cwestiynau a'u sicrhau fel bo'n briodol
 - Gwnewch yr alwad ar amser arall os bydd angen i'w helpu i ddeall
 - Dylech gynnwys teulu/gofalwyr fel bo'n briodol i gynorthwyo a phenderfynu os gellir ateb cwestiynau yn gyfreithiol gan rhywun arall ar ran yr unigolyn
-
- **Gofynnwch am eu statws iechyd,**
 - Oes ganddyn nhw neu rywun yn y tî Covid-19 wedi'i gadarnhau?
 - Oes ganddyn nhw neu rywun yn y tî unrhyw symptomau Covid-19? (peswch cyson sych; tymheredd uchel; dolur gwddf; colli blas neu arogl neu symptomau eraill)
 - Ydyn nhw neu unrhyw un yn y tî mewn grŵp risg uwch/gwarchod (e.e. gyda chanser neu gyflwr sy'n atal imiwnedd)?
 - Ydyn nhw neu unrhyw un arall yn y tî yn hunanyngysu o ganlyniad i ddod i gysylltiad â COVID-19?
 - Eglurwch am gadw pellter cymdeithasol a pham y bydd ei angen yn ystod yr ymweliad. Gofyn iddynt gytuno i gynnal pellter ac egluro'r budd iddyn nhw
 - Archwiliwch pa un a ellir defnyddio technoleg yn lle ymweliad i gyflawni ei nod a lleihau risg i'r unigolyn a'r gweithiwr cymdeithasol.

Gofynnwch am farn yr unigolyn (neu ofalwr/aelod o'r teulu perthnasol) ar sut i leihau risg. Os bydd yna risgiau hysbys o haint neu risg uwch i iechyd sy'n nodi na ddylai'r unigolyn gael ymwelwyr, gofynnwch am gyngor gan eich rheolwr llinell

- Os bydd yr unigolyn neu'r teulu yn debyg o beidio â chydymffurfio gyda chadw pellter cymdeithasol, dylech ystyried a ddylai cydweithwyr eraill gymryd rhan,

defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol a pha un a ellir ymgymryd â'r ymweliad yn ddiogel.

- Gwnewch yn siŵr fod yr unigolyn neu eu teulu/gofalwr yn deall (cymaint â phosibl) diben yr ymweliad a'r cynllun ar gyfer yr ymweliad.
- Ystyriwch anfon gwybodaeth atynt ymlaen llaw gan gynnwys gwybodaeth hawdd ei deall neu fformat arall os bydd angen. Lle na fydd gan yr unigolyn y gallu (fel y diffinnir yn y ddeddfwriaeth Gallu Meddyliol yn dibynnu ar y wlad), gwnewch yn siŵr bod budd gorau'r unigolyn ac anghenion am gefnogaeth yn cael eu hystyried gan y sawl sy'n gyfrifol neu sydd ag awdurdod cyfreithiol perthnasol i benderfynu ar eu rhan.
- Rhoi cyfle i'r unigolyn i herio penderfyniad y sefydliad os bydd angen ac os bydd hynny'n bosibl.

Ar y pwynt hwn, ystyriwch y budd a'r risg o gynnal/peidio cynnal yr ymweliad. Gofynnwch am gyngor a chymeradwyaeth i'ch dull gan eich rheolwr llinell fel bo'r angen.

Os bydd yr ymweliad angen cael ei gynnal, dylech greu cynllun perygl manwl:

- Nodi a lleihau pwy fydd yn bresennol yn yr ystafell/tŷ
- Cynllunio mynediad a'r defnydd o'r lle yn y cartref – neu arhoswch ar y stepen drws – i gadw pellter cymdeithasol drwy'r amser
- Nodi a sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol os nodwyd e.e. glanweithydd dwylo, menyg, masgiau, dillad diogelwch. Gweler adran ar Cyfarpar Diogelu Personol isod.
- Trefnwch sut y byddwch yn cynnal diben yr ymweliad tra'n lleihau'r risg o haint.
- Y risg a diogelwch cludiant fel risg haint cludiant cyhoeddus a rhannu ceir gyda chydweithwyr ac eraill. Teithio ar eich pen eich hun sydd fwyaf diogel.
- Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ac mae'n rhaid i holl weithwyr cymdeithasol wneud dyfarniad personol am risg a dulliau

Adolygu'r cynllun gyda'r rheolwr tîm neu gydweithwyr (e.e. ar ddyletswydd) i sicrhau ei fod yn ymarferol ac yn foesol, a bod risgiau yn cael eu rheoli'n rhesymol.

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Nid oes yna ganllawiau penodol gan lechyd y Cyhoedd ar y defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol gan weithwyr cymdeithasol adeg llunio'r canllawiau hyn.

Ym mhob un o'r amgylchiadau, dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau eu bod yn cadw pellter cymdeithasol (mwy na 2 fedr oddi wrth bobl eraill) drwy gydol yr ymweliad a dilyn y canllawiau lechyd y Cyhoedd diweddaraf ynglŷn â Chyfarpar Diogelu Personol a argymhellir ar gyfer lleoliadau cartrefi unigol.

Mae BASW wedi codi'r diffyg Cyfarpar Diogelu Personol/annigonol i weithwyr cymdeithasol gyda'r llywodraeth wrth lunio'r canllawiau hyn.

Yn union cyn yr ymweliad

- Nodi'r offer y byddwch ei angen yn ystod yr ymweliad fel y gallwch ddod o hyd i hwn yn rhwydd.
- yn ddarostyngedig i ganllawiau ar Gyfarpar Diogelu Personol uchod, nodi unrhyw gyfarpar diogelu a argymhellir gan iechyd y cyhoedd, er enghraifft y defnydd o sebon, gel dwylo, menyg, ffedog, masg wyneb a sicrhau fod gennych fynediad i hyn.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i'w wneud yn effeithiol ac osgoi unrhyw risgiau anfwriedig.
- Os byddwch yn bwriadu defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol sy'n gorchuddio eich wyneb, eglurwch pam eich bod yn ei ddefnyddio i'r unigolyn/teulu cyn i chi gyrraedd os yn bosibl, neu ar ôl cyrraedd os bydd angen
- Gwnewch yn siŵr fod gennych ffordd o waredu unrhyw gyfarpar diogelu ar ôl yr ymweliad yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych ffordd o olchi eich dwylo cyn ac yn syth ar ôl yr ymweliad, er enghraifft yn defnyddio glanweithydd dwylo sydd o fewn cyrraedd. Dilynwch ganllawiau Iechyd Cyhoeddus.
- Yn absenoldeb cyfarpar angenrheidiol i leihau'r risg o haint, er enghraifft i sicrhau y gallwch olchi eich dwylo, dylech adolygu'r asesiad risg ynglŷn â chydbwyso'r risg i chi a bregusrwydd yr unigolyn neu unigolion yr ydych yn bwriadu ymweld â nhw gyda'ch rheolwr llinell. Ceisiwch gyngor gan eich rheolwr atebol.
- Sicrhewch eich bod yn dilyn polisi gweithwyr unigol gan y sefydliad a bod gennych rywun y gallwch gysylltu â nhw yn ystod ymweliad os byddwch angen cyngor.
- Byddwch hefyd angen modd o allu cysylltu â'r unigolyn hwnnw, fel ffôn symudol.
- Gwnewch yn siŵr fod eich rheolwr llinell a'ch tîm yn ymwybodol o ble rydych chi a threfniadau cysylltu os bydd rhywun yn hwyr yn dychwelyd.

Adolygu'r cynllun gyda'r rheolwr llinell/cydweithwyr ar ddyletswydd i sicrhau ei fod yn ymarferol ac yn foesol, a bod risgiau yn cael eu rheoli'n rhesymol.

Yn ystod yr ymweliad

- Cyn mynd i'r cartref, gwiriwch eich gwybodaeth.
- Cadarnhewch pwy sydd yn y tŷ a statws iechyd y sawl yr ydych yn ymweld â nhw ac unrhyw aelodau eraill o'r cartref.
- Siaradwch gyda'r unigolyn yr ydych yn bwriadu ymweld â nhw i'w hatgoffa i ddilyn canllawiau iechyd y cyhoedd i leihau'r risg.
- Eglurwch y dull lleihau risg yr ydych yn eu cymryd a pham, ac eglurwch ei fod i'w diogelu nhw a chi

Dilynwch ganllawiau iechyd y cyhoedd yn ystod yr ymweliad

- Gwnewch yn siŵr fod gennych ffordd o olchi eich dwylo cyn ac yn syth ar ôl yr ymweliad, er enghraifft yn defnyddio glanweithydd dwylo sydd o fewn cyrraedd.
- Os nad yw canllawiau iechyd y cyhoedd yn nodi eich bod angen gwisgo menyg, golchwch eich dwylo cyn mynd i mewn i'r cartref / lleoliad ymweld am 20 eiliad gyda sebon yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd neu defnyddiwch lanweithydd.
- Yn ystod yr ymweliad, dylech leihau cyffwrdd ag arwyneb, peidiwch â rhoi eich eitemau personol i lawr ar unrhyw arwyneb, ceisiwch beidio cyffwrdd eich wyneb, gofynnwch i'r ystafell gael ei hawyru (e.e. drwy ffenestr neu ddrws agored), cadwch 2 fedr neu fwy oddi wrth bobl eraill a dilynwch unrhyw ganllawiau iechyd y cyhoedd eraill ynglŷn â lleihau haint. Dilynwch ganllawiau iechyd cyhoeddus.
- Cadwch yr ymweliad mor fyr a chryno â phosibl Os byddwch yn ystyried nad yw'r risgiau yn gymesur neu'n cael eu rheoli, eglurwch pam eich bod angen dod â'r ymweliad i ben a sut y byddwch yn trefnu dilyniant.

Yn dilyn yr ymweliad

- Dilynwch ganllawiau iechyd y cyhoedd yn syth ar ôl yr ymweliad.
- Dylech lanhau unrhyw gyfarpar sydd wedi dod o'r cartref yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd, er enghraifft drwy ddefnyddio diheintydd, ar gyfer ffôn, gliniadur ac ati hefyd.
- Dylech gael gwared ar unrhyw gyfarpar diogelu yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd.
- Golchwch eich dwylo yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd cyn cyffwrdd eitemau eraill, er enghraifft yn defnyddio glanweithydd dwylo.
- Golchwch eich dwylo cyn mynd i mewn i adeilad arall am 20 eiliad gyda sebon yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd neu defnyddiwch lanweithydd. Dilynwch ganllawiau iechyd cyhoeddus.
- Ar ddiwedd y dydd, tynnwch a golchwch ddillad sydd efallai wedi bod mewn cysylltiad â'r feirws.
- Hysbyswch eich sefydliad am unrhyw bryderon neu risg yr ydych wedi'i nodi.

Yn dilyn yr ymweliad

- Adrodd yn ôl i'ch cydweithwyr, neu reolwr llinell am yr ymweliad.
- Dylai eich sefydliad sicrhau bod yna ddewis ar gyfer cael ôl-drafodaeth ar unwaith. Rhannu unrhyw ddysgu sy'n gallu cefnogi ymarfer a'ch sefydliad.

Cofnodi'r ymweliad.

- Cynnwys unrhyw newidiadau i ymarfer oedd yn angenrheidiol o ganlyniad i'r pandemig.

- Cofnodi unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ymarfer a'ch sefydliad.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn darparu unrhyw ganllawiau perthnasol i eraill sy'n ymweld neu'n trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb yn nes ymlaen.
- Gofynnwch am gefnogaeth ar gyfer unrhyw bryderon proffesiynol neu bersonol.